

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 28 Tachwedd 2006

Teitl: £5 miliwn + 4 prifysgol = 1 sefydliad ymchwil newydd i Gymru

Bydd pedair prifysgol yng Nghymru yn derbyn cyfran o £5 miliwn ar gyfer menter ar y cyd i ddatblygu sefydliad ymchwil newydd.

Nod Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiannol Cymru yw gwella gallu ymchwil yn y meysydd hyn yng Nghymru i gystadlu'n well yn y DU ac yn rhyngwladol.

Mae'r Sefydliad, a fydd yn cynnwys adrannau ym: Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth; Prifysgol Cymru, Bangor; Prifysgol Caerdydd; a Phrifysgol Cymru Abertawe, yn mynd i gynyddu incwm ar gyfer ymchwil, yn enwedig o ffynonellau o'r tu hwnt i Gymru, a dylai hefyd chwarae rôl bwysig wrth weithio gyda diwydiant i annog ymchwil a fydd o fudd i 'economi wybodaeth' Cymru.

Bydd y Sefydliad hefyd yn chwarae rhan wrth ddatblygu nodau polisi Gwyddoniaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a bydd yn gweithio'n agos gydag ysgolion i annog y genhedlaeth nesaf o wyddonwyr mathemategol.

Dyrannwyd y cyllid yn rhan o gronfa Ailgyflunio a Chydweithio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Darperir y cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o dan ei hagenda 'Ymgeisio yn Uwch' er mwyn cefnogi sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i wneud y mathau o ddatblygiadau newid tir a all wella'u perfformiad a'u cystadleugarwch.

Dywedodd yr Athro Noel Lloyd, Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, Aberystwyth "Mae croeso cynnes i Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiannol Cymru. Mae mathemateg yn tanategu meysydd helaeth o wyddoniaeth, ac mae ymchwil yn y pwnc yn arwain at gyfraniadau pwysig i'r economi wybodaeth. Bydd y Sefydliad yn arwain at gryfhau'r sylfaen ymchwil yng Nghymru ymhellach ac yn gwella'i cystadleugarwch yn rhyngwladol. Bydd y rhaglen allymestyn a chyswllt ag ystod o gymwysiaid yn arbennig o werthfawr."

Dyweddodd yr Athro Merfyn Jones, Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, Bangor “Mae Ysgolion Gwyddorau Cyfrifiadurol a Pheirianneg Electroneg Prifysgol Cymru, Bangor yn awyddus i gyfranogi mewn cydweithrediad pwysig arall rhwng prifysgolion yng Nghymru. Rydym yn hynod falch bod ein harbenigedd ym meysydd dymegydd aflinol a modelu cyfrifiannol yn cael ei gydnabod ac edrychwn ymlaen at rannu'r arbenigedd hwnnw drwy gydweithio'n adeiladol.”

Dyweddodd cynrychiolydd Prifysgol Caerdydd ar bwyllgor cydlynu'r Sefydliad, yr Athro Des Evans o'r Ysgol Fathemateg: “Mae pwysigrwydd cydlynu arbenigedd mathemategol a chyfrifiannu, mewn ymateb i gynnydd rhyfeddol, wedi cael ei gydnabyddu drwy'r byd ers tro. Mae hyn wedi arwain at nifer o ganolfannau a sefydliadau o fri yn cael eu sefydlu. Bydd y sefydliad newydd yn ymuno â'r grŵp dethol hwn: bydd yn symud proffil ymchwil y gwyddorau mathemategol a chyfrifiannol i ddsbarth cyntaf y byd.

Dyweddodd Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) Prifysgol Cymru Abertawe, Yr Athro Nigel Weatherill: “Mae Abertawe yn falch iawn o fod yn chwarae rôl allweddol yn y Sefydliad newydd hwn. Daw'r datblygiad ar adeg gyffrous, yn dilyn lansiad y Polisi Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru yr wythnos diwethaf gan y Prif Weinidog, Rhodri Morgan. Mae prifysgolion Cymru yn meddu ar lawer o gryfderau ymchwil sefydledig a gydnabyddir yn helaeth, a thrwy weithio'n agos gyda'n cydweithwyr yng Nghaerdydd, yn Aberystwyth ac ym Mangor, edrychwn ymlaen at gryfhau safle Cymru yn arwain y gad ym meysydd gwyddorau mathemategol a chyfrifiannol.”

Diwedd

Nodiadau

Cysylltiadau ar gyfer mwy o wybodaeth

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 02920 682225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru: Janis Pickwick, Uwch Swyddog Cyfathrebu, 02920 898556

Prifysgol Cymru, Aberystwyth: Arthur Dafis, Y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus, 01970 621763

Prifysgol Cymru, Bangor: Elinor Ellis-Williams, Materion Allanol, 01248 383298

Prifysgol Caerdydd: Emma Darling, Swyddfa Cysylltiadau Cyhoeddus, 029 2087 4499

Prifysgol Cymru Abertawe: Bethan Evans, Swyddfa Cysylltiadau Cyhoeddus, 01792 295050

SEFYDLIAD GWYDDORAU MATEMATEGOL A CHYFRIFIANNOL CYMRU

Bydd gweithgarwch ymchwil y Sefydliad hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at nifer o'r meysydd blaenoriaeth ym Mholisi Gwyddoniaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys iechyd (e.e. modelu darpariaeth gofal iechyd); ac adnewyddu economaidd a chymdeithasol parhaus.

Mae gan wyddorau mathemategol a chyfrifiannol ystod enfawr o gymwysiadau ymarferol yn y Sectorau Awyrofod, Modurol, TGCh, Ariannol a'r Gwasanaethau Cyhoeddus, ymysg eraill. Bydd y Sefydliad yn cynyddu rhyngweithio gyda diwydiant er mwyn annog cyfranogiad, ym maes ymchwil ac wrth ymelwa ar ddatblygiadau ymchwil er budd yr economi wybodaeth yng Nghymru ill dau.

Bydd y Sefydliad yn cydlynu'r ymdrech ymchwil drwy strwythur reoli ar y cyd a strategaeth ymchwil gyffredin, gan dargedu buddsoddiad mewn clystyrau pwnc allweddol gan gynnwys Dadansoddi; Prosesau Stocastig a Dadansoddi Stocastig; Ffiseg Mathemategol; Modelu Cyfrifiannol; ac Ystadegau ac Ymchwil Weithrediadol. Gwneir nifer o benodiadau newydd o fewn y clystyrau hyn er mwyn cynyddu'r gronfa arbenigedd o fewn y Sefydliad. O ganlyniad i welliant mewn cystadleugarwch a fydd yn deillio o hyn, bydd y Sefydliad yn cyflwyno cynnydd sylweddol mewn incwm ymchwil. Disgwylir y daw llawer o'r twf hwn mewn incwm ymchwil o ffynonellau cyllid o'r tu hwnt i Gymru.

Datblygwyd y cynlluniau ar gyfer y Sefydliad yn erbyn cefndir canfyddiadau'r Adolygiad Rhyngwladol o Ymchwil y DU ym maes Mathemateg, a gynhaliwyd ar ran y Cyngor Ymchwil Peirianeg a Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) a Chyngor y Gwyddorau Mathemategol (CMS) yn 2004. Nododd yr Adolygiad hwn bod angen osgoi crynhoi ymchwil fathemategol mewn nifer fechan o brifysgolion, gan annog cydweithio rhanbarthol ymysg prifysgolion, fel hynny yng Nghymru.

Y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio

Lansiwyd y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio ym mis Gorffennaf 2002 i gefnogi ailffurfio Sector Addysg Uwch Cymru er budd sicrhau enillion sylweddol o ran perfformiad a gwella cystadleugarwch. Cefnogwyd sawl partneriaeth yn ystod cyfnod cyntaf y gronfa gan gynnwys uno Prifysgol Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru.

Ym mis Mehefin 2004, ail-bwysleisiodd y Gweinidog dros Addysgu a Dysgu Gydol Oes ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd ar drywydd ail-gyflunio a chydweithio fel modd o sicrhau sector addysg uwch cadarn, dynamig a chystadleuol yng Nghymru. Lansiodd CCAUC ail gyfnod y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio ym mis Gorffennaf 2004 gyda'r nod o annog cynigion ar gyfer uniadau, clystyrau a rhwydweithiau rhagoriaeth da eu sylfaen a thrwy resymoli'r ddarpariaeth rhwng sefydliadau.

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Fe'i sefydlwyd ym mis Mai 1992 a daeth yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993.

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan y Cynulliad i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch a chyrsgiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.